**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref Petition P-06-1220 & P-06-1242
Ein cyf/Our ref SM/00192/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

25 Mawrth 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 5 Chwefror ynghylch Deiseb P-06-1220 Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer Gwasanaethau Iechyd, Addysg ac Ymwybyddiaeth Menywod a Deiseb P-06-1242 Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru. Anfonwyd eich gohebiaeth ymlaen ataf i fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am iechyd menywod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud Iechyd Menywod yn flaenoriaeth, ac mae wedi ymrwymo i wella gofal iechyd menywod, gan sicrhau bod lleisiau menywod yn cael eu clywed a bod eu profiadau'n cael eu cydnabod wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau'r GIG. Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddwyd y Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod a Merched sy'n nodi'r hyn y gall menywod ei ddisgwyl gan y gwasanaethau iechyd, ac fe'i dilynwyd gan Adroddiad Darganfod a gyhoeddwyd yn ddiweddarach y flwyddyn honno, a oedd yn gosod y sylfeini ar gyfer datblygu Cynllun Iechyd Menywod cyntaf Cymru, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2024, ac sydd i'w weld drwy glicio ar y ddolen ganlynol: Cynllun Iechyd Menywod Cymru - Gweithrediaeth GIG Cymru

Mae'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod a Merched yn ei gwneud yn glir ei bod yn hollbwysig sicrhau bod gwasanaethau'r bwrdd iechyd yn adlewyrchu anghenion menywod ar draws ystod eang o gyflyrau, nid cyflyrau gynaecolegol yn unig.

Datblygwyd y cynllun gan y Rhwydwaith Clinigol Strategol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Menywod, o dan arweiniad Arweinydd Clinigol cyntaf Cymru ar gyfer Iechyd Menywod. Mae'n gynllun 10 mlynedd uchelgeisiol a fydd yn sbarduno gwelliannau gwirioneddol mewn iechyd a chanlyniadau menywod, trwy gyfres o gamau gweithredu tymor byr, tymor canolig, a thymor hir. Mae'r camau tymor byr yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a gwella addysg menywod ac ymarferwyr sy'n darparu gofal.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae symptomau menywod a chyflwyniadau clinigol anhwylderau cardiaidd, asthma, anymataliaeth a chyflyrau iechyd meddwl yn aml yn wahanol i symptomau a chyflwyniadau clinigol dynion, a rhaid i ofal menywod ymateb trwy gydnabod y patrymau hynny a chynnig diagnosis a thriniaeth iddynt yn ôl eu hanghenion penodol, a hynny trwy fodel o ddarparu gwasanaethau sy'n gymwys o ran rhywedd a diwylliant. Mae gan y Rhwydwaith Iechyd Menywod rôl bwysig gan ei fod yn darparu eiriolaeth ar ran menywod.  Bydd y rôl hon yn cynnwys gweithio gyda’r rhwydweithiau clinigol eraill i sicrhau bod anghenion menywod yn cael eu hystyried, bod eu lleisiau’n cael eu clywed, a bod eu profiadau’n cael eu cydnabod.

Mae £3 miliwn ychwanegol wedi cael ei neilltuo i helpu i gyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun Iechyd Menywod, gan ganolbwyntio'n benodol ar sefydlu canolfannau braenaru ar gyfer iechyd menywod ym mhob bwrdd iechyd erbyn mis Mawrth 2026.

Mae menywod yn hanner y boblogaeth, ond yn hanesyddol maent wedi bod o dan anfantais oherwydd diffyg ymchwil a data am gyflyrau sy'n benodol iddynt. Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol blaenorol ein dull gweithredu ar gyfer cynyddu cyllid ar gyfer ymchwil i iechyd menywod. Roedd hyn yn cynnwys ymarfer i flaenoriaethu ymchwil iechyd menywod a oedd yn gofyn am farn y rheini sydd â phrofiad bywyd a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol am y materion sydd bwysicaf iddyn nhw. Bydd casgliadau'r ymarfer hwn yn darparu sail ar gyfer galwad benodol am lansio ymchwil ar gyfathrebu ynghylch iechyd menywod ym mis Ebrill 2025, gan ymrwymo £750,000 i brosiectau iechyd menywod.

Yn ogystal â hyn, mae cyllid o £3,013,936 bellach wedi'i sicrhau ar gyfer canolfan Ymchwil Iechyd Menywod newydd yng Nghymru, fel rhan o becyn cyllido ehangach gwerth £49 miliwn a gyhoeddwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gefnogi 17 o ganolfannau ymchwil ledled y wlad. Bydd Canolfan Ymchwil Iechyd Menywod Cymru yn agor ym mis Ebrill, gan ddarparu tystiolaeth hanfodol ar gyfer gwella gofal iechyd i fenywod yng Nghymru. Bydd yn cael ei arwain gan Brifysgol Caerdydd yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor, a Phrifysgol De Cymru.

Mae'r hwb ariannol hwn yn adlewyrchu ymrwymiad sylweddol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, drwy gynllunio gwasanaethau i fenywod yn y dyfodol, fel y nodir yng Nghynllun Iechyd Menywod Cymru.

O ran gwella gofal iechyd endometriosis yng Nghymru, rydym yn deall yr anawsterau a wynebir gan fenywod sy'n byw gyda'r cyflwr cronig hwn.  Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella gofal iechyd menywod yng Nghymru fel mater o flaenoriaeth.

Mae Endometriosis ac Adenomyosis yn un o'r wyth maes blaenoriaeth yng Nghynllun Iechyd Menywod GIG Cymru, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr. Mae saith cam gweithredu sydd wedi'u diffinio'n glir ar gyfer y maes blaenoriaeth hwn. Bydd y rhain yn gwella profiadau menywod ledled Cymru wrth iddynt geisio gwybodaeth, triniaeth a chymorth ar gyfer endometriosis.

Bydd y camau gweithredu yn sicrhau gwelliannau mewn ystod o feysydd allweddol, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r cyflwr a gwella'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion. Caiff hyfforddiant ac addysg eu darparu i ymarferwyr gofal iechyd er mwyn sicrhau bod y cyflwr yn cael ei ddeall fel cyflwr cronig. Hefyd bydd fframweithiau cadarn ar gyfer monitro a chasglu data yn cael eu sefydlu er mwyn helpu i ddeall lefelau'r angen a'r capasiti ym mhob bwrdd iechyd.

O ran eich ymholiad penodol sy'n ymwneud â gofal endometriosis trydyddol, lle mae angen triniaeth endometriosis fwy cymhleth, gwneir atgyfeiriadau o'r bwrdd iechyd i ganolfan endometriosis achrededig. Ar hyn o bryd mae dwy ganolfan yn y De, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Er mai canolfannau achrededig yw'r rhain, nid ydynt yn cael eu comisiynu fel gwasanaeth arbenigol. Rydym yn cydnabod yr anawsterau y mae menywod yn eu hwynebu wrth gael mynediad at wasanaethau arbenigol ar gyfer cyflyrau iechyd menywod, yn enwedig gofal trydyddol ar gyfer endometriosis. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Rhwydwaith Iechyd Menywod a'r Cyd-bwyllgor Comisiynu i ymchwilio i'r posibiliadau ar gyfer sefydlu gwasanaethau arbenigol a gomisiynir yn y maes hwn.

Rydym yn cydnabod bod yr angen i leihau amseroedd aros, gan gynnwys ar gyfer cyflyrau gynaecolegol, yn flaenoriaeth genedlaethol i bobl ledled Cymru, Llywodraeth Cymru a'r GIG. Ar 24 Hydref, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet fod £28 miliwn ychwanegol wedi ei neilltuo i helpu'r GIG i dorri ar yr amseroedd aros hiraf, a chafodd y cyllid hwnnw ei gynyddu i dros £50m trwy gyhoeddiad pellach ar 19 Tachwedd. Dyma gyllid sy'n ychwanegol at y cyllid adfer sydd ar gael bob blwyddyn i helpu'r GIG i leihau'r amseroedd aros hiraf ymhellach a gwella mynediad at ofal sydd wedi'i gynllunio.

Nod y buddsoddiad ychwanegol yw helpu'r byrddau iechyd i glirio arosiadau hir mewn nifer o arbenigeddau, megis gynaecoleg, lle mae'r sefyllfa'n heriol.

Er bod arosiadau dros ddwy flynedd wedi gostwng 79% ar gyfer llwybrau gynaecoleg ers mis Ebrill 2022, rydym wedi ymrwymo i sicrhau gostyngiad pellach, a disgwylir gostyngiad ychwanegol o ganlyniad i'r buddsoddiad newydd diweddar.

Bydd diagnosis a rheolaeth amserol o gyflyrau iechyd mislif, gan gynnwys endometriosis, hefyd yn cael eu cefnogi drwy'r canolfannau braenaru ar gyfer iechyd menywod a gaiff eu sefydlu ym mhob bwrdd iechyd erbyn mis Mawrth 2026.

Mae'r byrddau iechyd eisoes yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gynaecoleg o ansawdd uchel, ac mae'n hanfodol eu bod yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yn y Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod a Merched, gan ddarparu llwybr cadarn ac effeithiol, sy'n cynnwys diagnosis cynnar, ar gyfer rheoli endometriosis yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Yn gywir,

**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing